# Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

This document is also available in English.

## Mannau Agored

**Simon Billington**
**Rheolwr Mannau Agored**

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Cynnal parciau, gwarchodfeydd natur, mannau agored a lleiniau ymyl ffordd ar hyd a lled y sir. Cadw'r rhwydwaith ffyrdd i fynd, yn cynnwys llenwi tyllau, rhoi wyneb newydd ar ffyrdd, graeanu ffyrdd a gweithredu'r aradr eira yn y gaeaf. Gofal am fyd natur ac annog bioamrywiaeth. Clirio sbwriel a thipio anghyfreithlon a gwagio biniau cyhoeddus

### Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

Cefn gwlad

Biomrywiaeth

Glanhau strydoedd

Parciau a gerddi

Rheoli coed



## Gwastraff

**Jim Espley**
**Rheolwr Gwastraff**

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Rheoli gwastraff y sir. Gwneud pethau'n hawdd i bobl sy'n byw yng Nghonwy fod yn gynaliadwy ac ailgylchu gymaint â phosibl.

### Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

Gwasanaethau casglu ailgylchu a gwastraff domestig

Casgliadau gwastraff ac ailgylchu masnachol ac ar gyfer digwyddiadau

Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref a chanolfan ailgylchu symudol



## Rheoli Traffig a Rhwydwaith

**Dylan Jones**
**Rheolwr Traffig a Rhwydwaith**

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Sicrhau bod y traffig yn symud a chadw ffyrdd yn ddiogel ac wedi'u goleuo. Lleihau tagfeydd os yn bosibl, yn cynnwys gwaith gwella diogelwch ar y ffyrdd. Darparu llwybrau newydd a gwell i annog teithio llesol (cerdded, olwynion, beicio). Sicrhau bod cynigion ar gyfer datblygiadau newydd a ffyrdd newydd yn ddiogel a chynaliadwy.

### Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

Goleuadau stryd

Gwasanaethau Stryd (cydlynu gwaith ffordd, digwyddiadau a thrwyddedau ar gyfer sgipiau a sgaffaldwaith)

Parcio

Diogelwch ar y ffyrdd



## Rheoli Perygl Llifogydd ac Isadeiledd

**Owen Conry**
**Rheolwr Perygl Llifogydd ac Isadeiledd**

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Cyflawni goblygiadau cyfreithiol y Cyngor o ran rheoli llifogydd yn y sir, yn cynnwys arolygu a chynnal a chadw amddiffynfeydd morol a gylïau priffyrdd. Dylunio a chodi amddiffynfeydd arfordirol a chynllluniau lliniaru llifogydd. Darparu cyngor ar faterion draenio ac amddiffyn rhag llifogydd ar gyfer datblygiadau newydd. Cynnal a chadw cyfarpar llefydd chwarae.

### Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

Amddiffynfeydd arfordirol

Lliniaru llifogydd

Draenio tir

Pontydd a muriau cynnal

Llefydd chwarae



## Cyfleusterau

**Gary Williams**
**Rheolwr Cyfleusterau**

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Gofalu am adeiladau ac asedau'r Cyngor, yn cynnwys ysgolion a swyddfeydd, harborau, yr amlosgfa a'r mynwentydd, toiledau cyhoeddus a rhandiroedd.

### Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

Atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau

Amlosgfa a mynwentydd

Harborau a'r arfordir

Toiledau cyhoeddus

Tîm Ymateb

Rhandiroedd

Cynnal a chadw ceuffosydd



# Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

## Cludiant

**Andrew Dawson**
**Rheolwr Cludiant**

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Gofalu am fflyd y Cyngor, o geir y Cyngor i gerbydau graeanu. Gweithio gyda chwmnïau cludiant i wella cludiant cyhoeddus a chymorthdalu llwybrau bws pwysig. Darparu cludiant i ddysgwyr.

### Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

Gwasanaethau fflyd

Cludiant o’r cartref i'r ysgol

Cludiant cyhoeddus

Tramffordd y Gogarth



## Ymgynghoriaeth Isadeiledd

**Gwyn Parry**
**Rheolwr Isadeiledd (Ymgynghoriaeth)**

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Rheoli dyluniad technegol a chontractau prosiectau isadeiledd y Cyngor, yn bennaf ar gyfer adrannau eraill y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd, pontydd a cheuffosydd, muriau cynnal, llefydd chwarae, ysgolion, swyddfeydd ac adeiladau eraill, gwelliannau i ffyrdd a theithio llesol.

### Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

Asesu a dylunio technegol

Rheoli prosiectau

Rheoli contractau



## Cyllid a Gwasanaethau i Gwsmeriaid

**Jane Roberts**
**Rheolwr Cyllid a Gwasanaethau i Gwsmeriaid**

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Goruchwylio holl gyllidebau AFfCh, gan gynnwys y gwaith paratoi, monitro a rheoli. Darparu cymorth gweinyddol ac ariannol, cyflogau, rheoli adnoddau a diogelu i bob maes gwasanaeth AFfCh. Darparu Tîm Cyngor i Gwsmeriaid un pwynt cyswllt, sy’n ymateb i ymholiadau gan aelodau o’r cyhoedd a chwsmeriaid mewnol ar y pwynt cyswllt cyntaf, prosesu ceisiadau gwasanaeth a rheoli cwynion. Rheoli gweithgareddau cyfathrebu’r adran, sy’n hysbysu’r cyhoedd am wasanaethau a phrosiectau.

### Mae’r gwasanaethau’n cynnwys:

Rheoli’r Gyllideb a Chymorth Ariannol

Cyflogau, Rheoli Adnoddau Dynol a Diogelu

Gwasanaethau i Gwsmeriaid

Cyfathrebu

Gweinyddu

Parhad Gwasanaeth

## Gwella Busnes

**Sarah Gallacher**
**Uwch Swyddog Gwella Busnes**

### Beth mae'n nhw'n ei wneud:

Rheoli’r Rhaglen Newid Hinsawdd gorfforaethol gan weithio tuag at leihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net erbyn 2030, cefnogi meysydd gwasanaeth yr AFfCh i reoli iechyd a diogelwch a chydlynu gweithgareddau rheoli perfformiad yr AFfCh.

### Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

Busnes a Pherfformiad

Rheoli Carbon

Iechyd a Diogelwch



## Systemau Gwbodaeth Rheoli

**Matt Williams**
**Rheolwr Gwbodaeth Rheoli**

### Beth maen nhw'n ei wneud:

Gweinyddu, cefnogi a datblygu Systemau Gwybodaeth Rheoli’r AFfCh. Hyrwyddo defnyddio technoleg newydd a ffyrdd newydd o weithio. Cefnogi gwelliannau i wasanaethau, effeithlonrwydd gwasanaethau a pharhad busnes ar draws yr adran.

### Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

Systemau Gwbodaeth Rheoli arbenigol ar gyfer yr AFfCh

Rheoli asedau digidol

Cefnogaeth, cyngor a hyfforddiant i ddefnyddwyr

Dylunio a gwella prosesau mewnol

